Mynd i'r afael
â **difreintedd**
a chodi
**safonau**

Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Difreintedd disgyblion

Mai 2014

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- colegau annibynnol arbenigol;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- Cymraeg i oedolion;
- dysgu yn y gwaith; a
- dysgu yn y sector cyfiawnder.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Cyflwyniad** **1**

**Cefndir** **1**

**Ble ydym ni nawr?** **2**

**Negeseuon allweddol o adroddiadau Estyn ar fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion** **2**

Pa feysydd y mae angen eu gwella? 2
Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael ag anfantais 4
Beth mae ysgolion effeithiol yn ei wneud? 4
Beth mae awdurdodau lleol effeithiol yn ei wneud? 8

**Atodiad 1: Data** **10**

**Atodiad 2: Astudiaethau achos** **15**

**Atodiad 3: Cysylltiadau ag adroddiadau Estyn ar dlodi ac anfantais** **17**

## Cyflwyniad

Diben yr adroddiad hwn yw crynhoi'r prif negeseuon o adroddiadau Estyn ar fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion. Rhwng 2007 a 2009, cyhoeddwyd tri adroddiad gan Estyn a oedd yn arfarnu'r ffordd yr oedd ysgolion yn defnyddio cyllid Rhagori. Dilynwyd hyn yn 2010 gydag adroddiad a oedd yn nodi enghreifftiau o arfer effeithiol ac yn gwneud awgrymiadau ynghylch camau pellach y gellid eu cymryd i wella perfformiad dysgwyr dan anfantais. Er 2011, mae Estyn wedi llunio cyfres o dri adroddiad cysylltiedig ar y pwnc, a chyhoeddwyd y diweddaraf o'r rhain yn Rhagfyr 2013. Roedd y tri adroddiad diweddarach hyn yn cynnwys llawer o astudiaethau achos sy'n gallu rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ysgolion am arferion llwyddiannus.

## Cefndir

Lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol oedd un o dair blaenoriaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru i ysgolion ac mae'n brif flaenoriaeth erbyn hyn. Mae wedi cyflwyno nifer o fentrau polisi i helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i wella deilliannau ar gyfer dysgwyr dan anfantais, gan gynnwys:

- Cynllun Gweithredu Mynd i'r Afael â Thlodi (2013);
- Strategaeth Tlodi Plant Cymru (2011); a'r
- rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf (2010) sy'n cynnwys Dechrau'n Deg, Cymunedau yn Gyntaf a Thimau Integredig Cymorth i Deuluoedd.

Er mwyn cefnogi camau i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, cyflwynwyd y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion gan Lywodraeth Cymru yn 2011 a'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn 2012. Bwriad Llywodraeth Cymru yw y dylai'r ddau grant weithio gyda'i gilydd. Y dyraniad grant ar gyfer 2014-2015 ar gyfer y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion yw £28.1 miliwn ynghyd â £71.2 miliwn ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion. Rhaid i awdurdodau lleol roi arian cyfatebol i'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion (ond nid y Grant Amddifadedd Disgyblion) hyd at werth £8.6 miliwn, sy'n golygu mai cyfanswm y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion yw £36.7 miliwn. Grant treigl yw'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, a fydd yn parhau y tu hwnt i 2015. Roedd cyllid ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion am dair blynedd i ddechrau, ond mae Cynulliad Cymru wedi cytuno i'w ymestyn am flwyddyn arall i 2015-2016.

Yn Ebrill 2013, lluniwyd arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar ddefnyddio'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am Gronfa Gyfatebol Grant Amddifadedd Disgyblion Cymunedau yn Gyntaf, a lansiwyd yn Chwefror 2013. Cyhoeddwyd canllaw cryno unigol yn 'addas i ysgolion' ar y Grant Amddifadedd Disgyblion gan Lywodraeth Cymru hefyd.

## Ble ydym ni nawr?

Mae plant a phobl ifanc nad oes modd iddynt ddianc o dlodi yn agored i niwed mewn llawer o ffyrdd. Maent yn wynebu mwy o berygl o wneud yn wael yn yr ysgol. Maent yn fwy tebygol o fod yn absennol, ymddwyn yn wael, cael eu gwahardd a chael eu haddysgu rhywle heblaw mewn ysgol. Efallai na fydd yr un cyfle ar gael iddynt â'u cyfoedion i fanteisio ar yr un adnoddau, fel cyfrifiadur neu le tawel i weithio. Efallai na fydd eu rhieni yn gallu eu helpu â'u gwaith cartref am fod canfyddiad a phrofiad y rhieni eu hunain o addysg yn negyddol. Pan fyddant yn oedolion, maent yn fwy tebygol o gael cyflog isel, bod yn ddi-waith a dioddef iechyd gwaeth. Os nad yw ysgolion yn mynd i'r afael â hyn yn ddigon cynnar a gyda phenderfyniad, gall ymddieithrio o ddysgu fod yn gylchol: gall tangyflawni arwain at bresenoldeb gwael, anawsterau ymddygiadol neu wahardd, sydd yn ei dro yn arwain at gyrhaeddiad gwaeth a mwy o ymddieithrio.

Mae cyswllt ystadegol cryf rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol isel. Yn gyffredinol, nid yw dysgwyr o deuluoedd tlotach yn cyflawni cystal â'u cyfoedion. Ym mhob un o'n tri adroddiad diwethaf, rydym wedi dangos nad yw dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal o gryn dipyn â'r dysgwyr hynny nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn erbyn ystod o ddangosyddion perfformiad. Yn atodiad 1 yr adroddiad hwn, byddwch yn gweld y data diweddaraf ar y sefyllfa hon ac mae hyn yn dangos er bod perfformiad dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim a dysgwyr nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim wedi gwella dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r bwlch rhyngddynt yn parhau i fod yn rhy eang. Mae'r bwlch yn ehangu'n raddol ym mhob cyfnod allweddol dilynol ac nid yw'n cau'n sylweddol.

Nid oes un esboniad syml am y cyswllt hwn rhwng difreintedd a thangyflawni nac ateb hawdd i roi diwedd arno. Fodd bynnag, nid yw effaith tlodi yn anochel. Gwyddom nad yw'r rhwystrau rhag dysgu yn anorchfygol gan fod rhai ysgolion yng Nghymru yn llwyddo i'w goresgyn er eu bod yn wynebu amgylchiadau heriol. Mae hon wedi bod yn thema gylchol yn adroddiadau Estyn ar ddysgwyr dan anfantais.

## Negeseuon allweddol o adroddiadau Estyn ar fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion

Mae adroddiadau Estyn ar fynd i'r afael â thlodi ac anfantais yn rhoi arfarniad clir o waith ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac awdurdodau lleol ar wella cyflawniad dysgwyr dan anfantais. Mae'r adroddiadau yn amlygu'r gwahanol agweddau ar waith ysgol ac yn arfarnu i ba raddau y mae'r gwaith hwn yn llwyddiannus.

### Pa feysydd y mae angen eu gwella?

Mae'n amlwg o ddata perfformiad bod llawer i'w wneud o hyd i wella cyflawniadau dysgwyr dan anfantais a bod cynnydd wrth fynd i'r afael â'r mater hwn wedi bod yn araf. Mae'r adroddiadau yn dangos yn glir bod angen rhoi rhagor o sylw i'r prif

agweddau a'u bod yn cael eu nodi'n eglur yn yr argymhellion ym mhob adroddiad. Mae'r adroddiadau yn amlygu gwendidau mwyaf cyffredin a pharhaus ysgolion ac awdurdodau lleol wrth wella cyflawniad dysgwyr dan anfantais. Mae'r gwendidau hyn mewn ysgolion yn ymwneud â methu gwneud y canlynol:

- blaenoriaethu mynd i'r afael â thlodi a chynllunio'n strategol i wella perfformiad dysgwyr dan anfantais;
- defnyddio dull ysgol gyfan systematig a chydlynus o gefnogi dysgwyr dan anfantais;
- nodi uwch aelod o staff i arwain a chydlynu'r gwaith;
- targedu cymorth yn benodol at ddysgwyr dan anfantais, yn enwedig at y dysgwyr hynny sydd ar lefelau cyfartalog neu'n uwch;
- gweddu cymorth i anghenion dysgwyr unigol;
- defnyddio systemau olrhain i fonitro cynnydd dysgwyr dan anfantais;
- nodi a chefnogi dysgwyr dan anfantais fawr nad oes ganddynt hawl efallai i gael prydau ysgol am ddim;
- teilwra'r cwricwlwm a thargedu dysgu y tu allan i oriau ysgol;
- magu hyder a meithrin cymhelliant a hunan-barch ymhlith dysgwyr dan anfantais;
- sicrhau bod digon o gymorth ar gyfer anghenion cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr;
- arfarnu effaith strategaethau i wella cyflawniad a lles dysgwyr dan anfantais;
- gwneud y mwyaf o waith cymunedol fel y gall effeithio ar gyflawniad dysgwyr;
- rheoli a chydlynu gweithio amlasiantaethol;
- cael strategaethau i ymgysylltu â rhieni;
- targedu cymorth ar gyfer dysgwyr dan anfantais wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;
- cael y medrau sy'n gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth ac wrth ymgysylltu â'r gymuned; a
- defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i wella cyflawniad yr holl ddysgwyr dan anfantais ac nid y dysgwyr gallu is yn unig.

Yn ychwanegol, mae'r adroddiadau yn nodi gwendidau cyffredin yng ngwaith awdurdodau lleol o ran:

- herio a chefnogi ysgolion i wella cyflawniad a lles dysgwyr dan anfantais;
- cynnig arweiniad ymarferol i ysgolion ar sut i weithio gyda chymunedau a gwasanaethau lleol i fynd i'r afael ag anfantais;
- defnyddio dull ataliol i fynd i'r afael â thlodi;
- cydlynu gwasanaethau ar gyfer teuluoedd dan anfantais;
- rhannu gwybodaeth am ddysgwyr dan anfantais gydag asiantaethau a gwasanaethau eraill;
- sicrhau bod y gwahanol wasanaethau o fewn awdurdodau lleol yn defnyddio'r un systemau olrhain i fonitro cynnydd dysgwyr dan anfantais;
- dod â chynlluniau gwasanaeth ar gyfer addysg, gwasanaethau ieuenctid a chymdeithasol at ei gilydd i ddarparu strategaeth gydlynus a chynhwysfawr;
- cael amcanion penodol neu dargedau mesuradwy y gellir eu defnyddio i herio ysgolion i wella deilliannau ar gyfer dysgwyr dan anfantais;
- darparu cyfleoedd hyfforddi i arweinwyr ysgol ddysgu am ddulliau strategol o

fynd i'r afael ag effaith tlodi, gan gynnwys sut i gynllunio ac arfarnu gwahanol ddulliau a pha mor dda y maent yn gweithio; a
- chynghori ysgolion ynglŷn â'r ffordd orau o ddefnyddio eu harian o'r Grant Amddifadedd Disgyblion.

## Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael ag anfantais

Er bod yr adroddiadau wedi dangos bod llawer o waith i'w wneud o hyd i gau'r bwlch o ran cyflawniad rhwng dysgwyr dan anfantais a'u cyfoedion, fe wnaethant nodi'r hyn y mae ysgolion llwyddiannus yn ei wneud hefyd. Esboniodd yr adroddiadau nodweddion arfer lwyddiannus yn y gwahanol agweddau ar waith yr ysgol, a dangoswyd hyn trwy astudiaethau achos manwl yn aml o'r hyn yr oedd ysgolion unigol yn ei wneud. Nododd yr adroddiadau arfer dda gan awdurdodau lleol wrth gefnogi ysgolion hefyd. Mae gweddill yr adroddiad hwn yn crynhoi'r strategaethau llwyddiannus hyn, ac yn atodiad 2, fe welwch restr o'r astudiaethau achos a dolen gyswllt i'r adroddiadau sy'n eu cynnwys.

## Beth mae ysgolion effeithiol yn ei wneud?

Mae ysgolion sy'n wynebu amgylchiadau heriol sy'n gwella cyflawniad dysgwyr dan anfantais yn gwneud yr hyn y mae pob ysgol lwyddiannus yn ei wneud i sicrhau cyflawniad dysgwyr. Yr hyn sy'n wahanol yn yr ysgolion sy'n gwneud yn dda mewn ardaloedd difreintiedig yw'r pwyslais a roddant ar weithgareddau penodol neu gyfuno gweithgareddau. Yn ychwanegol, mae'r ysgolion hyn yn creu ethos hynod gadarnhaol hefyd sy'n galluogi dysgwyr dan anfantais i gyflawni'n dda. Y peth pwysicaf a wna'r ysgolion hyn yw defnyddio ystod o strategaethau sydd wedi'u cynllunio'n benodol i fodloni anghenion nodweddiadol dysgwyr dan anfantais. Mae hyn yn golygu eu bod yn ychwanegu at strategaethau penodol neu'n eu hymestyn fel eu bod yn addas ar gyfer anghenion penodol dysgwyr dan anfantais, er enghraifft wrth addasu strategaethau ysgol gyfan llwyddiannus sydd wedi'u cynllunio i godi safonau darllen i anghenion penodol dysgwyr dan anfantais.

Mae'r adran hon wedi'i rhannu yn ddwy ran:

- strategaethau y gall yr ysgol eu rhoi ar waith ar ei phen ei hun; a
- strategaethau sy'n cynnwys yr ysgol yn gweithio gyda phartneriaid.

## Strategaethau y gall yr ysgol eu rhoi ar waith ar ei phen ei hun

**Deg strategaeth yn yr ysgol:**

- Dull ysgol gyfan
- Defnyddio data i nodi ac olrhain cynnydd
- Medrau llythrennedd a dysgu
- Medrau cymdeithasol ac emosiynol
- Presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad
- Teilwra'r cwricwlwm
- Profiadau cyfoethogi
- Gwrando ar ddysgwyr
- Ymgysylltu â rhieni
- Datblygu arbenigedd staff

Mae nifer o strategaethau y gall ysgolion eu cyflwyno a'u rhoi ar waith trwy'r strwythurau, y systemau a'r prosesau arferol a welir ym mhob ysgol. Mae ysgolion llwyddiannus sy'n wynebu amgylchiadau heriol:

- yn defnyddio **dull ysgol gyfan, strategol** o fynd i'r afael ag anfantais – mae ganddynt ddull strwythuredig, cydlynus a ffocysedig o wella cyflawniad dysgwyr dan anfantais, a sicrhau bod gan uwch arweinydd gyfrifoldeb rheoli am oruchwylio a chydlynu gwaith yr ysgol ar fynd i'r afael ag effaith anfantais;
- **yn defnyddio data i nodi ac olrhain cynnydd** dysgwyr dan anfantais – maent yn casglu gwybodaeth o ystod o ffynonellau ac yn ei defnyddio i ddadansoddi cynnydd grwpiau o ddysgwyr, gan gynnwys monitro pa mor dda y mae dysgwyr yn ei wneud yn erbyn meincnodau a chyrhaeddiad blaenorol, ac olrhain cynnydd dysgwyr unigol dan anfantais;
- yn canolbwyntio ar ddatblygu **medrau llythrennedd a dysgu** dysgwyr dan anfantais – maent yn sylweddoli mai diffyg cychwynnol mewn llythrennedd sydd wrth wraidd llawer o fathau eraill o anfanteision addysgol;
- yn datblygu **medrau cymdeithasol ac emosiynol** dysgwyr dan anfantais – maent yn deall y berthynas rhwng lles a safonau, ac yn aml yn ailstrwythuro eu system gofal bugeiliol i ddelio'n fwy uniongyrchol ag anghenion penodol dysgwyr dan anfantais;
- yn gwella **presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad** dysgwyr dan anfantais – mae ganddynt gosbau addas, ond yn gweld bod system wobrwyo yn gweithio'n arbennig o dda;
- **yn teilwra'r cwricwlwm** yn unol ag anghenion dysgwyr dan anfantais – mae ganddynt systemau mentora sy'n tywys dysgwyr trwy eu rhaglenni astudio ac yn eu helpu i gynllunio eu llwybrau dysgu eu hunain;
- yn ymdrechu'n fawr i ddarparu **profiadau cyfoethogi** y mae dysgwyr mwy breintiedig yn eu cymryd yn ganiataol – maent yn cynnig dewislen amrywiol o glybiau, gweithgareddau a theithiau diwylliannol ac addysgol;
- **yn gwrando ar ddysgwyr dan anfantais** ac yn rhoi cyfleoedd iddynt gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol – maent yn casglu safbwyntiau dysgwyr am

addysgu a dysgu, yn rhoi rôl allweddol mewn datblygu'r ysgol i ddysgwyr, ac yn cynnwys dysgwyr yn uniongyrchol i wella safonau;
- yn ymgysylltu â **rhieni a gofalwyr** dysgwyr dan anfantais – maent yn cyfathrebu ac yn gweithio wyneb yn wyneb i helpu nhw a'u plant i oresgyn rhwystrau rhag dysgu; ac
- **yn datblygu arbenigedd staff** i fodloni anghenion dysgwyr dan anfantais – mae ganddynt ddiwylliant o rannu arfer orau, darparu cyfleoedd i athrawon arsylwi ei gilydd, ac mae ganddynt dargedau rheoli perfformiad sy'n gysylltiedig â gwella cyflawniad dysgwyr dan anfantais.

Mae'r strategaethau uchod yn gymharol generig o ran eu natur, ond os yw'r ysgol am gael effaith ar gyflawniadau a lles dysgwyr, yna nid yw gwneud y pethau hyn yn unig yn ddigon. Mae ysgolion llwyddiannus yn gwneud rhywbeth ychwanegol a ffocysedig ar gyfer dysgwyr dan anfantais ym mhob un o'r strategaethau hyn. Mae eu gwaith yn ddwys, wedi'i dargedu'n benodol at ddysgwyr dan anfantais ac yn canolbwyntio'n graff ar anghenion unigol dysgwyr dan anfantais.

**Strategaethau sy'n cynnwys gweithio gyda phartneriaid**

**Deg strategaeth amlasiantaethol:**

Arweinyddiaeth gymunedol

Grwpiau anogaeth

Tîm o amgylch y teulu – cynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed

Dysgu teuluol

Cydgyfrannu adnoddau a defnyddio Grant Amddifadedd Disgyblion

Rhaglenni rhianta

Gwasanaethau ar y safle

Cyfranogiad cymunedol

Dysgu y tu allan i oriau ysgol

Arfarnu

**Deg strategaeth yn yr ysgol:**

- Dull ysgol gyfan
- Defnyddio data i nodi ac olrhain cynnydd
- Medrau llythrennedd a dysgu
- Medrau cymdeithasol ac emosiynol
- Presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad
- Teilwra'r cwricwlwm
- Profiadau cyfoethogi
- Gwrando ar ddysgwyr
- Ymgysylltu â rhieni
- Datblygu arbenigedd staff

Ni all ysgolion dorri'r cyswllt rhwng anfantais a chyflawniad ar eu pen eu hunain. Er bod gan yr ysgol rôl bwysig mewn gwella cyflawniadau dysgwyr dan anfantais, mae ymchwil yn pwysleisio bod angen dulliau eang sy'n cynnwys nifer o asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â materion cymunedol. Yn ogystal â'r ysgol, mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau addysgol, cymdeithasol ac iechyd eraill. Mae ysgolion llwyddiannus mewn amgylchiadau heriol:

- yn datblygu'r **medrau arwain sydd eu hangen ar gyfer gweithio mewn partneriaeth**, yn sefydlu protocolau a phrosesau, yn nodi uwch aelod o staff i gydlynu gwaith gyda phartneriaid, yn deall y cymorth a gaiff y disgyblion a'u

teuluoedd gan bartner allanol, ac yn monitro cynnydd yn ofalus;

- yn cydlynu ac yn rheoli **gwasanaethau amlasiantaethol ar y safle** – maent yn canolbwyntio ar anghenion pob dysgwr unigol, yn gweithio gydag asiantaethau i ddarparu gwasanaethau teuluol cysylltiedig eang ac yn gweithio gyda gwasanaethau arbenigol i fodloni anghenion iechyd neu les penodol;
- yn ymgymryd â dulliau '**Tîm o amgylch y teulu'** – maent yn defnyddio cronfa o fedrau o fewn y tîm i fynd i'r afael â phryderon iechyd, cartref a chymdeithasol dysgwyr a'u teuluoedd ac yn defnyddio cymorth arbenigol lle mae gan ddysgwyr anghenion cymhleth na all yr ysgol eu bodloni ar ei phen ei hun;
- yn cynllunio ystod o **ddysgu y tu allan i oriau** yn ofalus – maent yn sicrhau bod y gweithgareddau yn gweddu i anghenion dysgwyr, yn ychwanegu at y cwricwlwm ac yn cynyddu hyder, cymhelliant a hunan-barch dysgwyr;
- yn deall beth yw ystyr **ffocws cymunedol** – maent yn cryfhau cysylltiadau cymunedol gyda'r bwriad clir o godi cyfraddau presenoldeb, gwella ymddygiad a chodi lefel y cymorth i rieni, gan gynnwys ymgysylltu'n weithredol â chyflogwyr lleol;
- yn defnyddio **grwpiau anogaeth** i ymgysylltu â theuluoedd dysgwyr newydd sy'n agored i niwed – maent yn creu amgylchedd sy'n groesawgar, gan sefydlu ystafelloedd lle gall plant ddysgu gyda'u teuluoedd am gyfnod;
- yn defnyddio **dysgu teuluol** – maent yn nodi teuluoedd a fyddai'n elwa ar ddysgu teuluol, yn defnyddio hyrwyddwyr sydd â hygrededd ac yn gwybod beth yw amgylchiadau'r teuluoedd, ac yn monitro'r cynnydd a wneir gan y plant dan sylw;
- yn annog cyfranogiad mewn **rhaglenni rhianta** – maent yn ymgysylltu â rhieni a gofalwyr dysgwyr dan anfantais ac yn eu helpu i oresgyn rhwystrau rhag dysgu;
- **yn cydgyfrannu eu hadnoddau,** fel cyllid o'r **Grant Amddifadedd Disgyblion**, mewn strategaethau a hyfforddiant ar y cyd – maent yn mynd i'r afael yn systematig ag anfantais yn eu clwstwr o ysgolion, gan gynnwys cynllunio dulliau o alluogi cyfnod pontio didrafferth o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Maent yn cyfeirio'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn benodol tuag at ddysgwyr dan anfantais ac nid y rhai y mae eu cyflawniad yn isel, ac yn defnyddio'r strategaethau manwl gywir y mae'n hysbys mai nhw yw'r rhai mwyaf effeithiol; ac yn
- **arfarnu** eu gwaith eu hunain a gwaith asiantaethau allanol yn erbyn mesurau clir o berfformiad dysgwyr – maent yn defnyddio data i arfarnu effaith mentrau newydd a rhannu gwybodaeth am berfformiad gyda phartneriaid i helpu i gysylltu dulliau'r ysgol ag ymyriadau eraill.

**Beth mae awdurdodau lleol effeithiol yn ei wneud?**

**Pum strategaeth awdurdod lleol:**

**Deg strategaeth amlasiantaethol:**

Arweinyddiaeth gymunedol

Grwpiau anogaeth

Tîm o amgylch y teulu – cynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed

Dysgu teuluol

Cydgyfrannu adnoddau a defnyddio Grant Amddifadedd Disgyblion

**Deg strategaeth yn yr ysgol:**

- Dull ysgol gyfan
- Defnyddio data i nodi ac olrhain cynnydd
- Medrau llythrennedd a dysgu
- Medrau cymdeithasol ac emosiynol
- Presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad
- Teilwra'r cwricwlwm
- Profiadau cyfoethogi
- Gwrando ar ddysgwyr
- Ymgysylltu â rhieni
- Datblygu arbenigedd staff

Rhaglenni rhianta

Gwasanaethau ar y safle

Cyfranogiad cymunedol

Dysgu y tu allan i oriau ysgol

Arfarnu

Strategaeth gynhwysfawr ar gyfer mynd i'r afael â thlodi

Targedau a pherfformiad penodol

Yn ogystal â'r ysgolion sy'n gwneud yn dda mewn amgylchiadau heriol, mae rhai awdurdodau lleol sy'n gwneud yn arbennig o dda hefyd. Mae dysgwyr dan anfantais yn gwneud yn gymharol dda mewn rhai awdurdodau lleol ac mae bwlch sylweddol rhwng yr ysgolion sy'n perfformio orau a'r ysgol sy'n perfformio waethaf. Mae awdurdodau lleol llwyddiannus:


- yn darparu **arweiniad strategol** cryf ar fynd i'r afael ag anfantais – mae ganddynt gynlluniau wedi'u mynegi'n glir sy'n canolbwyntio ar y mater, yn cynnwys ysgolion mewn prosesau gwneud penderfyniadau ac yn datblygu medrau uwch arweinwyr mewn ysgolion mewn gwaith partneriaeth ac ymgysylltu â'r gymuned;
- yn defnyddio **dull ataliol** i fynd i'r afael ag effaith tlodi – maent yn dechrau gyda dadansoddiad trylwyr o anghenion i nodi effaith difreintedd ar deuluoedd lleol, yn rhannu gwybodaeth gydag ysgolion a phartneriaid, ac yn darparu gwaelodlin i fesur effaith mentrau newydd;
- yn cynllunio **cronfa ddata unigol a chynhwysfawr** o wybodaeth am ddysgwyr a grwpiau o ddysgwyr – maent yn galluogi staff i gael darlun llawnach o anghenion dysgwyr unigol a ddefnyddir i ategu dull cyffredin;

- yn dod â chynlluniau gwasanaeth at ei gilydd ar gyfer gwasanaethau addysg, ieuenctid a gwasanaethau cymdeithasol i ddatblygu **strategaeth gynhwysfawr ar gyfer mynd i'r afael â thlodi** – maent yn lunio cynlluniau integredig i gydlynu gwasanaethau ac osgoi dyblygu; ac
- mae ganddynt **dargedau a dangosyddion perfformiad penodol** sy'n gysylltiedig â chau'r bwlch mewn deilliannau rhwng dysgwyr breintiedig a dysgwyr dan anfantais – maent yn mesur cynnydd yn erbyn y targedau hyn.


## Atodiad 1: Data

Mae data Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013 yn dangos nad yw dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal o gryn dipyn o hyd na'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol.  Mae'r bwlch mewn cyrhaeddiad o ran y dangosydd pwnc craidd rhwng y dysgwyr hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion mwy breintiedig yn cynyddu'n raddol ym mhob cyfnod allweddol dilynol.


Mae'r data isod yn dangos canrannau cymharol sy'n cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) a'r dangosydd pwnc craidd (DPC) o ddysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad oes ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim.





Mae'r siart nesaf yn dangos bod y bwlch mewn canrannau yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 wedi gostwng ychydig iawn dros y tair blynedd diwethaf.  Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng y dysgwyr hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys i'w cael wedi aros o gwmpas 32 pwynt canran.





Mae'r siart isod yn dangos y modd y mae cyflawniad pob dysgwr yng nghyfnod allweddol 2 yn y dangosydd pwnc craidd yng Nghymru wedi gwella dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r bwlch yn y canrannau sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd rhwng y rhai sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys i'w cael wedi lleihau ychydig, ond mae'n rhy lydan o hyd.




Yn 2013, yng nghyfnod allweddol 4, bu gwelliant ar gyfradd ychydig yn well ym mherfformiad pob dysgwr ar drothwy lefel 2 na mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd y bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng y rhai sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad oes ganddynt hawl i'w cael wedi aros yn gyson, sef tua 33 pwynt canran hyd at 2011, ond lleihaodd yn y ddwy flynedd diwethaf.





Fodd bynnag, ar drothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 4, mae'r bwlch yn y canrannau sy'n cyflawni ar y trothwy hwn rhwng y dysgwyr hynny sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad oes ganddynt hawl i'w cael wedi aros yr un fath, sef tua 33 pwynt canran dros y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2009 a 2013.



## Absenoliaeth a difreintedd

Mae'r tabl a'r siart canlynol yn dangos bod perthynas gref rhwng cyfran y dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r gyfradd absenoliaeth. Maent yn dangos, yn gyffredinol, bod absenoldeb uwch mewn ysgolion uwchradd y mae gan gyfran uwch o'u dysgwyr hawl i gael prydau ysgol am ddim.

| **Absenoliaeth (canran y sesiynau ysgol a gollwyd) gan ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol yn yr holl ysgolion uwchradd a gynhelir, yn ôl y gyfran sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, 2012-2013** | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfran sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim** | **Yr holl absenoldebau** | **Absenoldebau anawdurdodedig** | **Nifer yr ysgolion** |
| 10% neu lai | **6.0%** | **0.6%** | **49** |
| 15% neu lai, ond dros 10% | **6.8%** | **0.8%** | **55** |
| 20% neu lai, ond dros 15% | **7.4%** | **1.1%** | **33** |
| 30% neu lai, ond dros 20% | **8.4%** | **1.8%** | **56** |
| dros 30% | **9.5%** | **3.1%** | **26** |
| Yr holl ysgolion a gynhelir | **7.4%** | **1.3%** | **219** |



## Data awdurdodau lleol

Mae'r tabl isod yn dangos yr amrywiad sylweddol ym mherfformiad disgyblion sy'n gymwys a'r disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim rhwng gwahanol awdurdodau lleol yng Nghymru – y data yw trothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg ar gyfer 2013.

| **Lefel 2 yn cynnwys** | **Cymwys i gael PYDd** | **Ddim yn gymwys i gael PYDd** | **Bwlch (gwahaniaeth pwyntiau canran)** |
|---|---|---|---|
| Merthyr Tudful | 12.3% | 46.0% | 33.6 |
| Blaenau Gwent | 18.6% | 46.4% | 27.7 |
| Caerdydd | 20.9% | 57.1% | 36.2 |
| Rhondda Cynon Taf | 21.7% | 53.4% | 31.7 |
| Wrecsam | 22.5% | 55.2% | 32.8 |
| Casnewydd | 22.5% | 58.2% | 35.8 |
| Caerffili | 24.1% | 53.0% | 28.9 |
| Sir Ddinbych | 24.1% | 59.5% | 35.4 |
| Cymru | 25.8% | 58.5% | 32.7 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 26.4% | 58.1% | 31.7 |
| Sir Fynwy | 26.7% | 61.6% | 35.0 |
| Ceredigion | 27.0% | 66.6% | 39.6 |
| Abertawe | 28.1% | 63.2% | 35.1 |
| Sir Benfro | 28.2% | 56.8% | 28.6 |
| Torfaen | 28.3% | 55.2% | 26.9 |
| Sir Gaerfyrddin | 29.3% | 57.9% | 28.6 |
| Castell-nedd Port Talbot | 30.1% | 62.8% | 32.7 |
| Gwynedd | 30.2% | 62.4% | 32.2 |
| Conwy | 30.9% | 61.8% | 30.9 |
| Powys | 31.4% | 61.7% | 30.3 |
| Bro Morgannwg | 32.5% | 59.9% | 27.5 |
| Sir y Fflint | 35.7% | 67.5% | 31.8 |
| Ynys Môn | 39.1% | 57.7% | 18.6 |

# Atodiad 2: Astudiaethau achos

## Ysgolion

| Testun | Darparwr | Sector | Adroddiad |
|---|---|---|---|
| Agwedd ysgol gyfan at ddysgwyr dan anfantais | Ysgol Gynradd Llyswerі, Casnewydd | Cynradd | Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: gweithio gyda'r gymuned a gwasanaethau eraill, 2011 |
| Agwedd ysgol gyfan at ddysgwyr dan anfantais | Ysgol Gyfun Bryngwyn, Sir Gaerfyrddin | Uwchradd | Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: gweithio gyda'r gymuned a gwasanaethau eraill, 2011 |
| Olrhain cynnydd dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 | Ysgol Gyfun Cwrt Sart, Castell-nedd Port Talbot | Uwchradd | Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion, 2012 |
| Olrhain lles a chyflawniad | Ysgol Gynradd Llwynypia, Rhondda Cynon Taf | Cynradd | Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion, 2012 |
| Agwedd ysgol gyfan at lythrennedd | Ysgol Gyfun Sandfields | Uwchradd | Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion, 2012 |
| Y system fugeiliol a dysgwyr dan anfantais | Ysgol Bryn Elian, Conwy | Uwchradd | Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion, 2012 |
| Rheolwr lles | Ysgol Gynradd Alexandra, Wrecsam | Cynradd | Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad addysgol, 2013 |
| Gwella presenoldeb | Ysgol Gyfun Cefn Hengoed, Abertawe | Uwchradd | Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion, 2012 |
| Canolfan astudio myfyrwyr ar gyfer dysgwyr dan anfantais | Ysgol Gyfun Cwrt Sart, Castell-nedd Port Talbot | Uwchradd | Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion, 2012 |
| Cyfoethogi profiadau dysgu ar gyfer dysgwyr dan anfantais | Ysgol Y Castell, Sir Gaerfyrddin | Cynradd | Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion, 2012 |
| Gwrando ar ddysgwyr | Ysgol Gyfun Cefn Hengoed, Abertawe | Uwchradd | Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion, 2012 |
| Mentora cymheiriaid | Ysgol Gyfun Cwrt Sart, Castell-nedd Port Talbot | Uwchradd | Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion, 2012 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ‘Prosiect Aspiration’ am fyd gwaith | Ysgol Gynradd Sant Woolos, Casnewydd | Cynradd | Arfer effeithiol wrth fynd i’r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion, 2012 |
| Cymorth iaith arbenigol | Ysgol Melyd, Sir Ddinbych | Cynradd | Arfer effeithiol wrth fynd i’r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion, 2012 |
| Cysylltiadau gyda rhieni a’r gymuned leol | Ysgol Uwchradd Cathays, Caerdydd | Uwchradd | Arfer effeithiol wrth fynd i’r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion, 2012 |
| Ymgysylltu â rhieni | Ysgol Mount Stuart, Caerdydd | Cynradd | Arfer effeithiol wrth fynd i’r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion, 2012 |
| Ystafell anogaeth i deuluoedd | Ysgol Gynradd Pillgwenlly, Casnewydd | Cynradd | Gweithio gyda’n gilydd i fynd i’r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad addysgol, 2013 |
| Cyngor Rhieni | Ysgol Gynradd Herbert Thompson, Caerdydd | Cynradd | Mynd i’r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: gweithio gyda’r gymuned a gwasanaethau eraill, 2011 |
| *Tîm o amgylch y teulu | Ysgol Gyfun Coedcae, Sir Gaerfyrddin | Uwchradd | Gweithio gyda’n gilydd i fynd i’r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad addysgol, 2013 |
| Gwaith amlasiantaethol | Ysgol Gynradd Treorci, Rhondda Cynon Taf | Cynradd | Gweithio gyda’n gilydd i fynd i’r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad addysgol, 2013 |
| Gweithio mewn partneriaeth gyda grŵp gwirfoddol | Ysgol Gyfun yr Esgob Gore, Abertawe | Uwchradd | Mynd i’r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: gweithio gyda’r gymuned a gwasanaethau eraill, 2011 |
| Partneriaeth rhwng ysgol a chartref gofal preswyl ar gyfer yr henoed | Ysgol Gynradd Blaengwawr, Rhondda Cynon Taf | Cynradd | Mynd i’r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: gweithio gyda’r gymuned a gwasanaethau eraill, 2011 |

**Awdurdodau lleol**

| **Testun** | **Darparwr** | **Sector** | **Adroddiad** |
|---|---|---|---|
| Cydlynwyr ysgolion bro cymunedol | Caerdydd | Cynradd, uwchradd a’r awdurdod lleol | Mynd i’r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: gweithio gyda’r gymuned a gwasanaethau eraill, 2011 |
| *Partneriaeth rhwng addysg a gwasanaethau plant | Sir Gaerfyrddin | Awdurdod lleol | Gweithio gyda’n gilydd i fynd i’r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad addysgol, 2013 |
| ‘Offeryn mapio teuluoedd sy’n agored i niwed’ | Castell-nedd Port Talbot | Awdurdod lleol | Gweithio gyda’n gilydd i fynd i’r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad addysgol, 2013 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Proffiliau Asesu Agoredrwydd i Niwed | Abertawe | Awdurdod lleol | Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad addysgol, 2013 |
| *Cydlynu mentrau rhwng gwasanaethau ysgol a gwasanaethau cymorth | Wrecsam | Awdurdod lleol | Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad addysgol, 2013 |

## Atodiad 3: Cysylltiadau ag adroddiadau Estyn ar dlodi ac anfantais

I gael rhagor o wybodaeth am adroddiadau blaenorol ar dlodi ac anfantais neu ddefnydd ac effaith cyllid Rhagori mewn ysgolion, cliciwch ar y dolenni cyswllt hyn:

Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad addysgol, 2013

Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion, 2012

Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: gweithio gyda'r gymuned a gwasanaethau eraill, 2011

Adroddiadau eraill perthnasol Estyn

Effaith rhaglenni dysgu teuluol ar godi lefelau llythrennedd a rhifedd plant ac oedolion, 2012

Effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad dysgwyr mewn addysg bellach a dysgu yn y gwaith, 2011

Darparu gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol gan ysgolion

Arfer dda mewn ymglymiad rhieni mewn ysgolion cynradd

Deunyddiau HMS gan Estyn

Hyrwyddo arfer dda wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais: deunyddiau HMS ar gyfer ysgolion cynradd

Hyrwyddo arfer dda wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais: deunyddiau HMS ar gyfer ysgolion uwchradd